22100339

International Baccalaureate®
Baccalauréat International
Bachillerato Internacional

**WELSH A1 – STANDARD LEVEL – PAPER 1**
**GALLOIS A1 – NIVEAU MOYEN – ÉPREUVE 1**
**GALÉS A1 – NIVEL MEDIO – PRUEBA 1**

Thursday 13 May 2010 (afternoon)
Jeudi 13 mai 2010 (après-midi)
Jueves 13 de mayo de 2010 (tarde)

1 hour 30 minutes / 1 heure 30 minutes / 1 hora 30 minutos

INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

- Do not open this examination paper until instructed to do so.
- Write a commentary on one passage only. It is not compulsory for you to respond directly to the guiding questions provided. However, you may use them if you wish.

INSTRUCTIONS DESTINÉES AUX CANDIDATS

- N'ouvrez pas cette épreuve avant d'y être autorisé(e).
- Rédigez un commentaire sur un seul des passages. Le commentaire ne doit pas nécessairement répondre aux questions d'orientation fournies. Vous pouvez toutefois les utiliser si vous le désirez.

INSTRUCCIONES PARA LOS ALUMNOS

- No abra esta prueba hasta que se lo autoricen.
- Escriba un comentario sobre un solo fragmento. No es obligatorio responder directamente a las preguntas que se ofrecen a modo de guía. Sin embargo, puede usarlas si lo desea.





© International Baccalaureate Organization 2010

https://xtremepape.rs/

*Ysgrifennwch sylwadau ar* ***un*** *o'r darnau hyn:*

**1.**

Roedd o'n sobor fel sant.

Grêt. Y noson cyn y Dolig, pawb arall wedi meddwi o'i gwmpas o, a dyma fo'n eistedd mewn cornel efo *Coke* fflat mewn gwydryn ar y bwrdd o'i flaen. Yn gwylio'i gariad yn dawnsio efo rhyw foi arall.

Roedd ganddo gur yn ei ben hefyd, doedd hwnnw ddim yn helpu; cur oedd wedi dechrau cyn iddo fynd allan o'r tŷ.

Diolch i'w dad, meddyliodd.

Roedd Stiw Powell wedi bod yn ymddwyn yn od ers dyddiau, wastad un ai'n gwylio'r tywydd ar y teledu neu allan yn yr ardd gefn yn astudio'r awyr fel tasa fo'n chwilio am UFOs neu rwbath.

Ac amser te heno, roedd o wedi dweud wrth Gwyn: "Dw i ddim yn meddwl y dylat ti fynd allan heno 'ma."

Roedd Gwyn wedi rhythu arno gyda darn o *pizza* hanner ffordd i'w geg. Beth oedd hyn – un arall o'i jôcs uffernol o? Ond na, roedd ei dad o ddifrif, yn ôl yr olwg ar ei wyneb.

"Byhafia, 'nei di?" meddai Gwyn wrtho.

"Ma' nhw'n addo eira."

"*Big deal*."

"Dw i 'di deud wrth Sara, dydi hi ddim yn ca'l mynd allan."

O, meddyliodd Gwyn, dyna egluro'r gweiddi a glywodd yn gynharach, a'r ffaith nad oedd Sara yn y gegin.

"Ma' hi'n noson cyn Dolig, Stiw," meddai Yvonne.

Trodd Stiw ac edrych arni.

"Ti'n meddwl 'mod i ddim yn gwbod hynny?" Trodd yn ei ôl at Gwyn. "Pam na wnei di ffonio Kelly, a gofyn iddi hi ddod yma?"

"*Yma*?"

"Pam lai? Ma' 'na ddigon o lysh yma."

Roedd Gwyn wedi piffian chwerthin, gan boeri briwsion *pizza* dros y bwrdd.

"Ti'n meddwl fod Kelly eisiau dod yma – eisiau treulio heno, o bob noson, yn eistedd o flaen y teli efo chi'ch dau? *Get a life*!"

Neidiodd Gwyn a'i fam wrth i Stiw daro wyneb y bwrdd â'i law.

"Dw't ti ddim i fynd allan heno 'ma!"

Cododd Gwyn ar ei draed.

"Wyt ti am fy stopio i, wyt ti?"

"Yndw! Os oes raid i mi …"

Safodd Gwyn yn ei unfan wrth i Stiw wthio'i gadair yn ôl a stryffaglu i godi oddi wrth y bwrdd. Gosododd Yvonne ei llaw ar ei fraich, a defnyddiodd Stiw hynny fel esgus dros beidio â chodi ymhellach.

Gwenodd Gwyn. Ma'r boi yma, meddyliodd, yn pathetig.



https://xtremepape.rs/

"Gad iddo fynd allan os ydi o eisiau."

"A *mae* o eisiau," ychwanegodd Gwyn. "Mae o'n mynd, hefyd."

Aeth i ymolchi a newid. Wrthi'n gwisgo'i siaced yr oedd o pan ddaeth Sara i mewn i'w ystafell.

"Ti'n mynd allan?"

"Nac 'dw. Dw i am aros i mewn, yn gwrando arnyn nhw'u dau yn ffraeo. Be *ti'n* feddwl?"

"Dw i'n dod efo chdi."

"*No way*! Dw i'n galw i nôl Kelly … a dw i'n hwyr yn barod. Symud o'r ffordd, 'nei di?"

Ymwthiodd allan heibio i'w chwaer.

"*Plîs*, Gwyn."

"Cer di i dy wely'n gynnar yn hogan dda, ac efallai y daw Santa â lot o bresanta neis i chdi."

Roedd Stiw'n aros amdano wrth droed y grisiau.

"Dw i am ofyn yn neis i chdi …"

Be oedd yn *bod* ar y dyn? Roedd haen denau o chwys ar wyneb ei dad, ac roedd ei lygaid yn sgleinio â rhyw oleuni rhyfedd. Mae o wedi bod yn yfed drwy'r dydd, penderfynodd Gwyn, ac wedi cymysgu'r diodydd anghywir – gormod o Bacardi, gormod o seidr, gormod o gwrw. Gormod o bopeth yn wir.

"O, cer o'r ffordd, Dad, 'nei di?"

Ymwthiodd heibio iddo a chwilio drwy bocedi'i gôt am allweddi'r car. Lle roedden nhw …?

"Ei di ddim yn bell heb y rhain, beth bynnag."

Trodd Gwyn i weld Stiw yn cerdded i mewn i'r ystafell fyw gyda'i allweddi ef yn ei law.

Gareth F Williams, *Eira Mân, Eira Mawr* (2007)

– Sut y cyflwynir perthynas Stiw Powell â'i blant, yn arbennig ei fab, yn y darn?

– Beth yw rôl Yvonne yn y detholiad a pha mor allweddol yw ei hymateb i'r sefyllfa?

– Beth yw swyddogaeth a pha mor effeithiol yw defnydd yr awdur o ddeialog?

– Beth yw eich ymateb chi i'r gwrthdaro teuluol a ddisgrifir yn y darn?



https://xtremepape.rs/

**2.**

**Y Canol Llonydd Distaw**

Dal fi'n dynn … paid dweud dim …

Gwawriodd arnaf i o'r diwedd un o wersi Tao Te Ching
mai gwacter, llonydd a heddwch a distawrwydd sydd wrth
wraidd pob dim
ond glywi di y cegau yn siarad?
glywi di y lleisiau mor groch?
maen nhw'n debyg i minnau yn malu awyr
yn debyg i chdithau yn f'ateb innau
'dan ni'n swnio fel miloedd o wenyn prysur
weithia' fel storom o fellt a tharanau.

Dal fi'n dynn … paid dweud dim …
Dwi'n chwilio am y canol llonydd distaw
sy' ynof fi fy hun ac ynghanol pob dim,
chwilio am y gwacter mawr a hyfryd
ynom ni i gyd yn llonydd fel llyn.

'Dan ni'n hau hadau, medi'r cnydau Daw tymor arall i aredig
Gobeithio bod ni'n dysgu rywsut Sut i fyw yn fwy caredig …
weli di dy ffrindiau'n chwilio
yng nghanol y wyneba' di-ri'
am un edrychiad, un cyffyrddiad,
rhyw sylweddoliad, darganfyddiad,
'dan ni angen edrych i fyw llygaid ein gilydd
angen dinoethi heb deimlo c'wilydd.

Gwyn eu byd y rhai sy'n noeth …
Yn chwilio am y canol llonydd distaw
sy' ynof fi fy hun ac ynghanol pob dim,
chwilio am y gwacter mawr a hyfryd
ynom ni i gyd yn llonydd fel llyn.



https://xtremepape.rs/

Noson gynnes yng Ngorffennaf
yr haul yn machlud dros y ffin
ffrindiau wrth y bwrdd yn chwerthin
rhannu sgwrs a chaws a gwin
mae y trefi mawr a'r dinasoedd
yn pwyso'n rhy drwm arnom ni
'dan ni angen llwybr mewn coedwig dawel
mwsog a nentydd, mymryn o awel
angen gollwng baich y geiriau
a chlywed ochenaid y Fam Ddaear.

Gwyn eu byd yr addfwyn rai …
Sy'n chwilio am y canol llonydd distaw
sy' ynof fi fy hun ac ynghanol pob dim,
chwilio am y gwacter mawr a hyfryd
ynom ni i gyd yn llonydd fel llyn.

Steve Eaves, *Hoff Gerddi Cymru* (2000)

– Sut a pha mor effeithiol y mae'r bardd yn disgrifio cyflwr bywyd heddiw?

– Trafodwch arddull ac iaith y gerdd.

– Sut y mae'r syniad o'r "canol llonydd distaw" yn cael ei ddiffinio a'i bwysleisio yn y gerdd?

– Beth yn eich barn chi yw neges y gerdd a sut yr ydych chi'n ymateb iddi?



https://xtremepape.rs/